



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mwy na geiriau

Y Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol

Cwestiynau Cyffredin (Cwestiynau Cyffredin)

C. Beth yw amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg?

A. Mae gennym ddau brif nod strategol ar gyfer yr iaith, i'w cyflawni erbyn 2050.

1. Miliwn o siaradwyr Cymraeg.
2. Dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n credu y dylai siaradwyr Cymraeg allu cael gafael ar wasanaethau pwysig yn y iaith o'u dewis lle mae'r gallu'n bodoli, a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

C. Pam mae'n bwysig cynnig gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd / gofal sylfaenol?

A. *Mwy na geiriau* yw ein fframwaith ar gyfer cryfhau'r gwasanaethau Cymraeg ym myd iechyd a gofal cymdeithasol. Mae diogelwch, parch ac urddas cleifion wrth wraidd ein gwaith i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol, gan fod dewis iaith yn anghenrheidiol yn hytrach na dewis i gleifion.

Gall ansawdd y gofal gael ei danseilio gan fethiant i gyfathrebu â phobl yn yr iaith o'u dewis.

Mae'n arbennig o bwysig i grwpiau bregus o bobl a'u teuluoedd sydd angen gwasanaethau yn yr iaith o'u dewis, fel pobl sy'n dioddef o ddementia neu strôc a all fod wedi colli eu hail iaith, neu blant bach iawn sydd ond yn gallu siarad Cymraeg o bosib. Efallai yr hoffech wyllo'r fideo isod sy'n well na geiriau am gyfleu pa mor bwysig yw iaith:<https://www.youtube.com/watch?v=10Au1qB0DkQ&feature=youtu.be>

Roedd *Fy Iaith, Fy Iechyd*: Ymholiad Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol (2014) hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cynnig gwasanaethau Cymraeg yn y sector gofal sylfaenol gan mai dyma'r pwynt cyswllt cyntaf i lawer o aelodau'r cyhoedd â'r system gofal iechyd.

Mae'n cyflwyno llawer o argymhellion gan gynnwys:

- Gofynnaf i Weinidogion Cymru, cyrff proffesiynol a chyrrff cynrychioliadol roi arweiniad polisi clir i ddarparwyr gofal sylfaenol ar oblygiadau methu â thrin siaradwyr Cymraeg â pharch ac urddas, ac effaith methu â chydabod eu hunaniaeth a'u hanghenion.
- Fel mater o bolisi gofynnaf i Weinidogion Cymru sicrhau bod dewis iaith yn gysyniad ystyrlon a ddeallir. Yn deillio o hyn dylai Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â holl ddarparwyr gwasanaethau gofal sylfaenol, gymryd camau i amlygu'r gwasanaethau y gall y cyhoedd ddisgwyl ei bod yn rhesymol eu derbyn yn Gymraeg.
- Gofynnaf i Weinidogion Cymru, ar y cyd â'r sawl sy'n gyfrifol am wasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru, ddarparu arweiniad deallusol ar berthnasedd defnyddio'r Gymraeg i ansawdd gofal, ac yn gysylltiedig â hynny, urddas yr unigolyn.
- Dylai'r sector gofal sylfaenol weithredu'n unol â'i ddyletswyddau iaith cyfredol ac ailystyried ei ymagwedd tuag at ddarpariaeth iaith Gymraeg. Rwyf am weld cynllun gweithredu ac amserlen ar gyfer newid.
- Gofynnaf i Weinidogion Cymru gymryd safiad polisi o blaid y model 'cynnig rhagweithiol' fel bod modd ei weithredu'n systematig ac yn effeithiol ar draws gwasanaethau gofal sylfaenol, er mwyn sicrhau ansawdd profiad a chychwyn diogel i lwybr iechyd y claf.
- Dylai'r sector gydweithio gyda defnyddwyr er mwyn dysgu am eu profiadau gwasanaeth iaith Gymraeg ac adnabod y camau ymarferol y gellid eu cymryd er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

C. Beth yw Safonau'r Gymraeg?

A. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a hefyd yn darparu ar gyfer creu safonau'r Gymraeg y gellir eu gorfodi ar amryw o gyrff y sector cyhoeddus a phreifat. Mae'r safonau'n disodli'r Cynlluniau Iaith Gymraeg ac yn adeiladu arnynt. Byddant yn ei gwneud hi'n haws i bobl gael gafael ar wasanaethau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd. Diben safonau'r Gymraeg yw:

- gwella'r gwasanaethau Cymraeg y gall siaradwyr Cymraeg eu disgwyl gan sefydliadau a chynyddu defnydd pobl o wasanaethau Cymraeg
- ei gwneud hi'n glir i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn y Gymraeg
- ei gwneud hi'n glir i sefydliadau beth sydd angen iddynt ei wneud o safbwynt y Gymraeg.

Cafodd rheoliadau sy'n golygu bod safonau'r Gymraeg yn berthnasol i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2018 (Rheoliadau Rhif 7 Safonau'r Gymraeg 2018) a daethant i rym ddiwedd Mehefin 2018.

Ers hynny, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyflwyno hysbysiadau cydymffurfio i'r cyrff hynny a ddechreuodd gydymffurfio â'r safonau o 30 Mai 2019 ymlaen. Yn ogystal ag ymdrin â'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu i'r cyhoedd, mae safonau'r rheoliadau yn cynnwys gofyniad i gyrff feithrin sgiliau iaith eu staff; darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac asesu'r angen am sgiliau iaith Gymraeg wrth hysbysebu swyddi.

Yn achos y sector iechyd, mae safon arall yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff y GIG gyhoeddi cynllun pum mlynedd sy'n dangos i ba raddau maen nhw'n gallu cynnal ymgynghoriadau clinigol trwy gyfrwng y Gymraeg a'r camau maen nhw'n bwriadu eu cymryd i gynyddu eu gallu i wneud hynny. Hefyd, rhaid i gyrff ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg eu staff a chadw cofnod o'r sgiliau hynny yn ogystal â dangos yn y newidiadau i'w gwasanaethau a'r cynlluniau gwella a gyflwynwyd ganddynt eu bod wedi ystyried yr angen i gynnig gwasanaethau yn rhagweithiol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Nid yw safonau'r Gymraeg yn berthnasol i ddarparwyr gofal sylfaenol, gan gynnwys meddygfeydd, ar wahân i nifer fach sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol gan fyrddau iechyd. I gyd-fynd â chyflwyno safonau'r Gymraeg ar gyfer y sector iechyd, cytunodd Llywodraeth Cymru â phob un o'r pedwar corff cynrychioliadol i gynnwys dyletswyddau'r Gymraeg yng nghontractau/amodau gwasanaeth contractwyr gofal sylfaenol annibynnol. Dyma lle gallwch chi wneud cyfraniad allweddol drwy helpu i hyrwyddo, datblygu sgiliau Gymraeg a chofnodi'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

C. Beth yw'r dyletswyddau Cymraeg sydd ar gontractwyr gofal sylfaenol annibynnol?

A. Mae chwe dyletswydd wedi'u rhoi ar gontractwyr gofal sylfaenol annibynnol, fel yr amlinellir isod:

1. Pan fo contractwr yn darparu gwasanaethau, neu unrhyw ran o wasanaeth, drwy gyfrwng y Gymraeg, rhaid hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ysgrifenedig.
2. Rhaid i'r contractwr sicrhau bod fersiwn Gymraeg o unrhyw ddogfen neu ffurflen i'w defnyddio gan gleifion a/neu aelodau o'r cyhoedd, a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol, ar gael.
3. Pan fo contractwr yn arddangos arwydd neu hysbysiad newydd mewn cysylltiad â gwasanaethau, neu unrhyw ran o'r gwasanaeth, rhaid i'r testun ar yr arwydd neu'r hysbysiad fod yn Gymraeg ac yn Saesneg, a chaiff y contractwr ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu a gynigir gan y Bwrdd Iechyd Lleol at y diben hwn.
4. Pan fo contractwr yn darparu gwasanaethau, neu unrhyw ran o'r gwasanaeth, dan gontract trwy gyfrwng y Gymraeg, rhaid iddo annog ei staff i wisgo bathodyn a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol, er mwyn cyfleu eu bod yn gallu siarad Cymraeg.
5. Dylai'r contractwr annog a chynorthwyo ei staff i ddefnyddio gwybodaeth a/neu fynd ar gyrsiau hyfforddi a digwyddiadau a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol, fel y gall ddatblygu:

(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth o'i hanes a'i rôl yn niwylliant Cymru); a

(b) dealltwriaeth o sut gellir defnyddio'r Gymraeg mewn cysylltiad â'r gwasanaethau, neu unrhyw ran o'r gwasanaeth, a ddarperir dan y contract.

6. Wrth ddarparu gwasanaethau, neu unrhyw ran o wasanaeth, dan gontract, anogir y contractwr:

(a) i ganfod dewis iaith y claf; a

(b) cofnodi'r dewis iaith hwnnw a fynegir gan neu ar ran y claf.

C. Pryd ddaethon nhw i rym?

A. Daeth y dyletswyddau ar gontractwyr gofal sylfaenol annibynnol i rym ar 30 Mai 2019.

C. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng safonau a dyletswyddau?

A. Mae Safonau'r Gymraeg yn cael eu pennu mewn Rheoliadau sy'n cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol a rhoddir hysbysiadau cydymffurfio i gyrff sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn monitro cydymffurfiaeth â'r safonau, ac yn ymchwilio i gwynion yn ymwneud â chyrff nad ydynt yn bodloni'r safonau sydd yn eu hysbysiadau cydymffurfio.

Mae'r dyletswyddau a roddir ar gontractwyr gofal sylfaenol annibynnol wedi'u cynnwys yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019. Mae'r dyletswyddau hyn yn rhan o gontractau / telerau gwasanaeth contractwyr gofal sylfaenol annibynnol. Mae'r contractau'n cael eu rheoli a'u monitro gan Fyrddau Iechyd Lleol a byddai cwynion ar beidio â bodloni'r dyletswyddau'n cael eu hymchwilio gan y Bwrdd Iechyd perthnasol.

C. I ba wasanaethau mae'r dyletswyddau'n berthnasol?

A. Mae'r dyletswyddau'n berthnasol i'r Sector Gofal Sylfaenol yng Nghymru sy'n cynnwys meddygfeydd teulu, fferylliaeth gymunedol, gwasanaethau deintyddol ac optometreg.

C. Beth yw 'Cynnig Rhagweithiol'?

A. Eifen allweddol o *Mwy na geiriau* yw'r cysyniad 'Cynnig Rhagweithiol'. Ystyr hyn yn syml yw darparu gwasanaeth Cymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Mae'n rhoi cyfrifoldeb o ofyn y cwestiwn arnoch chi, y darparwr gwasanaeth, nid ar y defnyddiwr gwasanaeth. Mae cynnig gwasanaethau Cymraeg heb fod angen i'r defnyddiwr ofyn amdanynt, yn rhan hanfodol o wasanaeth da.

C. Sut dylwn i wneud 'Cynnig Rhagweithiol'?

A. Gallwch gyflwyno'r 'Cynnig Rhagweithiol' mewn sawl gwahanol ffordd a does dim angen iddo fod yn gostus. Efallai y bydd yn heriol mewn rhai ardaloedd oherwydd prinder posib siaradwyr Cymraeg, ond mae gan siaradwyr di-Gymraeg hefyd ran i'w chwarae wrth gyflwyno'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

Dyma rai o'r pethau ymarferol y gallwch chi eu gwneud i ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol':

- Cyfarchion dwyieithog.
- Arwyddion dwyieithog.

Dyma rai enghreifftiau:

- Dylai pob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn eich sefydliad wisgo bathodyn neu laniard 'Iaith Gwaith' neu 'Dysgu Cymraeg'. I gael gwybodaeth am dderbyn cyflenwad o'r adnoddau yma, cysylltwch â Swyddog Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd.
- Sicrhewch fod siaradwyr Cymraeg yn cael pob cyfle i ddefnyddio'r iaith, gofalwch fod pob arwydd yn cael ei arddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde a/neu gyda'r Gymraeg yn gyntaf a'r Saesneg wedyn.
- Dylai unrhyw wybodaeth i'r cyhoedd fod yn ddwyieithog.
- Sicrhewch fod eich staff yn gwybod pa mor bwysig yw cyfarchion dwyieithog a'u bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael er mwyn sicrhau bod cleifion sy'n siarad Cymraeg yn gallu gwneud dewis gwybodus. Hyd yn oed os nad yw'r gwasanaethau ar gael, mae'n bwysig gofyn er mwyn gwneud cofnod o'r dewis iaith a fydd yn help i gynllunio at y dyfodol a'i basio ymlaen gydag atgyfeiriad.

C. Pam ddylwn i wneud 'Cynnig Rhagweithiol' os nad ydw i'n gallu darparu'r cyfan neu rywffaint o'r gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg?

A. Mae gan bawb gyfraniad i'w wneud yn hyn o beth. Mae modd cyflwyno geiriau ac ymadroddion Cymraeg bob dydd, syml, i'w defnyddio gyda chleifion. Bydd unrhyw ymgais i helpu'r claf i deimlo'n gartrefol yn cael ei werthfawrogi.

Mae'n bwysig cofnodi pan fydd 'Cynnig Rhagweithiol' yn cael ei wneud a phan fydd rhywun yn mynegi dewis iaith, er mwyn i'r gwasanaethau eraill yr atgyfeirir y claf atynt fod yn ymwybodol o hyn a'u bod yn gallu ystyried a allant ddarparu rhywfaint neu'r cyfan o'r gwasanaethau yn y Gymraeg.

Rydym yn mynd ati i wella systemau clinigol ymhellach er mwyn cofnodi a rhannu'r dewis iaith o fewn y GIG a gofal cymdeithasol, fel bod dewis iaith y claf yn cael ei ddiwallu drwy gydol ei ofal.

C. Pam mae arwyddion Cymraeg yn bwysig?

A. Mae arwyddion yn cefnogi naws am le, a phan mae pobl yn gweld arwydd dwyieithog, mae'n dangos parch ac yn gallu eu helpu i ymlacio. Bydd y bwrdd iechyd yn darparu posteri / gwybodaeth ddwyieithog i chi ac yn darparu cyfieithiad ar gyfer arwyddion newydd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Efallai yr hoffech feddwl am ffyrdd eraill i wneud y Gymraeg yn fwy amlwg yn y gweithle. Beth am gyflwyno hysbysfwrdd Cymraeg yn eich ystafelloedd aros sy'n darparu'r gwybodaeth diweddaraf a dolenni perthnasol i staff a chleifion. Er enghraifft, gallech gyflwyno 'Gair Cymraeg y dydd'. Bydd Swyddog Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd Lleol yn gallu'ch helpu gyda hyn.

C. Pam mae cofnodi dewis iaith yn bwysig?

A. Rydym eisoes wedi esbonio pwysigrwydd cofnodi'r 'Cynnig Rhagweithiol' a'r dewis iaith.

Mae'n bwysig nad yw cleifion yn gorfod nodi eu dewis iaith ym mhob apwyntiad neu dro ar ôl tro, ac nad ydych chi'n gorfod eu holi o hyd chwaith. Mae'n bwysig nodi hyn ar gofnod y claf a'i basio ymlaen, lle bo modd, wrth atgyfeirio gwybodaeth i wasanaethau eraill, gan y bydd yn helpu gyda'r broses o gefnogi egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol'.

Hefyd, mae'n wybodaeth bwysig er mwyn deall y galw am wasanaethau Cymraeg ar gyfer y boblogaeth ac wrth gynllunio'ch gwasanaethau chi a rhai iechyd a gofal ehangach at y dyfodol.

C. Sut galla'i ddysgu mwy am broffil iaith fy mhoblogaeth?

A. Mae Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol wedi dod at ei gilydd i greu chwe Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol newydd. Mae'r Byrddau Rhanbarthol yn rhyddhau data am broffil iaith ardal y Bwrdd Iechyd Lleol.

Dyma'r chwe Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol:

Bwrdd Rhanbarthol y Gogledd

<https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/bwrdd-partneriaeth-rhanbarthol-gogledd-cymru/>

Bwrdd Rhanbarthol Gorllewin Cymru

<https://www.wwcp.org.uk>

Bwrdd Rhanbarthol Bae'r Gorllewin

<http://www.westernbay.org.uk>

Bwrdd Rhanbarthol Cwm Taf

<https://www.wwcp.org.uk/>

Bwrdd Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

<https://www.cardiffandvalesocialcare.co.uk/>

Bwrdd Rhanbarthol Gwent

<http://www.gwentrpb.wales/home>

Mae pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn esbonio mewn cynlluniau rhanbarthol sydd wedi asesu'r boblogaeth sut byddan nhw'n cydweithio ledled Cymru i gyflwyno gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n seiliedig ar adroddiad am y gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar bobl ym mhob un o'r chwe ardal, a ysgrifennwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol unigol – yr asesiad poblogaeth yw'r adroddiad hwn.

C. Pa fath o hyfforddiant Cymraeg sydd ar gael i staff?

A. Mae cyrsiau i ddechreuwyr ar gael yn hawdd drwy eich Bwrdd Iechyd Lleol.

Hefyd, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol – 'Dysgu Cymraeg' yn cynnig cwrs blasu ar-lein 10 awr am ddim wedi'i deilwra i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Hefyd, mae'n cynnig cyrsiau wyneb yn wyneb ar gyfer dysgwyr o bob gallu. Rhagor o fanylion yn: <https://dysgucymraeg.cymru/>

Gall swyddogion Cymraeg y bwrdd iechyd helpu hefyd trwy ddarparu adnoddau defnyddiol fel arwyddion ac adnoddau eraill er mwyn helpu gyda'r hyfforddiant sydd ar gael.

C. Beth am y gost?

A. Ni ddylech chi orfod talu unrhyw gostau ychwanegol gan fod eich Bwrdd Iechyd Lleol yn gallu darparu adnoddau fel cyfieithu arwyddion, bathodynnau a hyfforddiant ar eich cyfer.

Mae Llywodraeth Cymru'n gallu helpu hefyd trwy'n llinell gymorth Cymraeg Byd Busnes a gaiff ei lansio'n ddiweddarach yn 2019. Bydd y llinell gymorth hon yn rhoi cyfieithiadau am ddim (hyd at 500 gair y mis) a gwasanaeth prawfddarllen Cymraeg.

Bydd y llinell gymorth yn gallu'ch cyfeirio at un o'n deuddeg swyddog Cymraeg Byd Busnes a all eich helpu i ddefnyddio'r Gymraeg mewn busnes yn rhad ac am ddim. Hefyd, mae nhw'n darparu gwasanaeth bwrpasol sy'n cynnig cyngor ac adnoddau ymarferol yn ogystal â'ch helpu i ddod o hyd i ragor o gymorth perthnasol.

Gwefan: <https://businesswales.gov.wales/cy/cymraeg-yn-eich-busnes>

Mae gwella a chynnig gwasanaethau Cymraeg yn gallu bod o fudd i'ch busnes hefyd. Trwy godi ymwybyddiaeth a chynyddu'r gallu i gynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, gallech ddenu mwy o bobl at eich gwasanaethau.

C. Lle alla i ofyn am gymorth/cefnogaeth?

A. Mae cyrsiau Cymraeg i ddechreuwr eisoes ar gael trwy'ch Bwrdd Iechyd Lleol. Mae Swyddogion Cymraeg y byrddau iechyd yn gallu darparu cymorth yn eu hardaloedd bwrdd iechyd nhw hefyd. Dyma restr ohonynt:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan –
welshlanguageunit.abb@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr –
bcu.gwasanaethaucymraeg@wales.nhs.uk / bcu.welshlanguageservices@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro –
alun.williams4@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
ctt_welshlanguageunit@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda –
translation.welsh.hdd@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys –
powys.geninfo@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe –
carol.harry2@wales.nhs.uk

Ar hyn o bryd, mae dau brosiect peilot 'Cymraeg Byd Busnes' yn cychwyn yn ystod tymor yr Hydref 2019, mewn dau glwstwr gofal sylfaenol o fewn ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Nod y prosiectau peilot hyn fydd helpu'r sector gofal sylfaenol i ddysgu a rhannu arferion gorau wrth hybu a hyrwyddo'r Gymraeg.

Bydd Swyddogion Cymraeg y Byrddau Iechyd Lleol, tîm Cymraeg Byd Busnes a Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r clystyrau peilot ac yn rhannu arferion gorau'n genedlaethol.